Urdd y Myfyrwyr
Prifysgol Aberystwyth University
Guild of Students

# Cyngor y Cynrychiolwyr Cwrs

**Dydd Mercher, 16eg Mai 2012**
**12.00 pm – 1.00 pm**
**Prif Ystafell, Urdd y Myfyrwyr**

# COFNODION

**Agenda**

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Gynhaliwyd ar 29ain Chwefror 2012
3. Adroddiadau
   a. Swyddog Addysg
   b. Cydlynydd Cynrychiolaeth a Phrofiad Myfyrwyr
   c. Cynrychiolwyr
4. Materion y Cadeirydd
   a. Siarter y Myfyrwyr
   b. Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr
   c. Cynhadledd Cynrychiolwyr Cwrs
   d. Cynrychiolydd Cyfadran ar gyfer Cyfadran y Celfyddydau
5. Materion y Cynrychiolwyr
6. Unrhyw Fater Arall
7. Cyfarfod Nesaf

**Presennol:** Ben Meakin (BM) (Cadeirydd); Sam Reynolds (SR) (Cofnodion); Peter Gosiewski (PG); Gemma Western (GW); Peter Faraday Weller (PF); Trygve Børsting (TB); Lucy Sharman-Davies (LS); Claire James (CJ); Rhiannon Morris (RM); Kerry-Ann Pimlot (KP); Helena Rogers (HR); Hannah Jones (HJ)

**Hefyd yn Bresennol:** Tom Burmeister; Onur Kara

**Ymddiheuriadau:** Paul Arnold, Zoe McWilliams, Jessica Leigh

**Absennol:** Keith Winqvist; John Balfour; Joe MacMahon; Anna Gabriella Sivertsen; Cassandra Baggs; Sarah Hall; Winnie Karanja; Barney Alldridge; Robyn Womack; Nozuko Langa; Will Pryce; Adam Tucker; Matthew Evans; Adam Smith; Becky Wale; Chloe Reynolds

1. **Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd BM y cynrychiolwyr i'r cyfarfod gan ymgymryd â'r Gadair yn lle JL.

**2. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Gynhaliwyd ar 29ain Chwefror 2012**

Cymeradwywyd y cofnodion heb eu newid.

**3. Adroddiadau**

**a. Swyddog Addysg**

Ni roddwyd adroddiad yn absenoldeb y Swyddog Addysg.

**b. Cydlynydd Cynrychiolaeth a Phrofiad Myfyrwyr**

Rhoddodd SR grynodeb byr o'i waith ers y cyfarfod diwethaf ym mis Chwefror. Mae hynny wedi cynnwys cydlynu ymateb yr Urdd i'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, cynorthwyo gyda chyflwyno'r Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr a datblygiad parhaus system y Cynrychiolwyr Cwrs.

**c. Cynrychiolwyr**

**i. Celf**

Roedd y cynrychiolwyr yn anfodlon gyda'r PYSM diwethaf a hyd yma nid oes dyddiad nac amser ar gyfer y trydydd cyfarfod (y cyfarfod olaf) wedi'u darparu. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Phennaeth yr Adran a ystyriwyd yn bositif iawn.

**ii. Cyfrifiadureg**

Dim ond anawsterau bach gyda BlackBoard i'w hadrodd; ymddengys fod popeth arall yn dda yn yr Adran.

**iii. Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Codwyd cyflogadwyedd fel mater yn y PYSM, a bydd yn faes ffocws allweddol y flwyddyn nesaf. Cynhaliwyd cymorthfeydd galw-heibio cyn y cyfarfod diwethaf ac ystyriwyd iddynt gael effaith bositif. Hefyd, dosbarthwyd cylchlythyr yn manylu ar waith y PYSM. Amlygodd SR y ddau o'r rhain fel syniadau ardderchog ac anogodd adrannau eraill i'w hefelychu.

**iv. Astudiaethau Gwybodaeth**

Trafodaethau yn y PYSM diwethaf yn ymwneud yn bennaf ag adleoli posibl adrannau eraill i Lanbadarn, a sgil effaith hyn ar adnoddau. Mae yna hefyd anhawster gyda chysylltu â myfyrwyr i gasglu adborth a thrafod materion.

**v. Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**

At ei gilydd, dim mater o bwys i'w adrodd. Fodd bynnag, mynegodd cynrychiolwyr awydd i'r PYSM gwrdd yn fwy rheolaidd.

**vi. Hanes**

Roedd y PYSM diwethaf yn bositif iawn, gyda'r adran yn rhoi ystyriaeth i broblemau gyda modiwlau. Y prif fater a godwyd oedd anghysondeb yn yr adran o ran dychwelyd gwaith wedi'i asesu a marcio arholiadau.

## 4. Materion y Cadeirydd

### a. Siarter y Myfyrwyr

Eglurodd SR fod y Swyddog Addysg wrthi'n cynhyrchu Siarter y Myfyrwyr, ac y byddai manylion pellach ar gael maes o law.

### b. Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr

Rhoddwyd mwy o fanylion ynghylch y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr cyntaf a gwahoddwyd y cynrychiolwyr i'r seremoni.

### c. Cynhadledd Cynrychiolwyr Cwrs

Rhoddwyd i'r cynrychiolwyr fanylion Cynhadledd Cynrychiolwyr Cwrs 'Dweud eich Dweud' UCM Cymru a gynhelir ar 8fed Mehefin. Byddai mwy o wybodaeth ar gael gan SR ar ôl y cyfarfod.

### d. Cynrychiolydd Cyfadran ar gyfer Cyfadran y Celfyddydau

Eglurodd BM y byddai angen i gynrychiolydd o blith y myfyrwyr fynd i bwyllgor Cyfadran y Celfyddydau am 2pm yn absenoldeb y Swyddog Addysg, a gofynnodd am wirfoddolwyr. Cytunodd GW i fynd i'r cyfarfod gyda chymorth y Cydlynydd Cynrychiolaeth.

## 5. Materion y Cynrychiolwyr

### a. Bysiau

Cododd HR fater o PYSM Astudiaethau Gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth bws i gampws Llanbadarn ac oddi yno. Mae gwybodaeth, amlder y gwasanaeth ac amseriad yn broblemau mawr, a dywedodd HR ei fod am weld camau i'w datrys. Roedd SR eisoes wedi sicrhau y byddai mwy o wybodaeth ar gael ar wefannau'r Brifysgol a'r Urdd, a bydd yn sicrhau bod hyn wedi digwydd. Cytunodd BM fod hyn yn broblem fawr i nifer o fyfyrwyr, ac mae disgwyl sawl datblygiad. Bydd Mid Wales Travel yn newid ei amserlen, a bydd BM yn rhoi barn y myfyrwyr i Arriva er mwyn sicrhau y gwneir y gwelliannau y mae angen mawr amdanynt.

## 6. Unrhyw Fater Arall

**a. Polisi Cyflwyno'n Hwyr**

Diolchodd SR i PG am ymchwil rhagorol ar bolisi cyflwyno'n hwyr unffurf arfaethedig y Brifysgol. Er bod y polisi ar fin cael ei gwblhau, mae'r cyfryw ymchwil yn bwysig. Amlygodd BM yr angen am gysondeb, a gobeithiodd y gellir cau pen y mwdwl yn fuan.

*Pwynt Gweithredu: SR am ddosbarthu'r ymchwil drwy ebost gyda chofnodion y cyfarfod.*

**b. Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr**

Diolchodd SR i'r cynrychiolwyr am yr ymateb da i'r arolwg eleni; y gyfradd ymateb yn y diwedd oedd 65%. Cytunodd y Brifysgol i roi £1 am bob ymateb, gan godi cyfanswm o £1438 ar gyfer y Gronfa Caledi Myfyrwyr yn yr Urdd.

## 7. Cyfarfod Nesaf

Hwn oedd cyfarfod olaf y sesiwn academaidd hon. Diolchodd BM a SR i'r cynrychiolwyr am eu holl waith caled eleni.